Un Llais Cymru
One Voice Wales

# Cynghorau Cymuned & Thref
# Canllawiau Digidol

## Defnyddio Codau QR mewn Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru

Mawrth 2025

# Cynnwys

Cyflwyniad i Godau QR ............ **Error! Bookmark not defined.**
Sut mae Codau QR yn Gweithio ............ **Error! Bookmark not defined.**
Defnyddio Codau QR ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref ............ **Error! Bookmark not defined.**
Agendau a Chofnodion Cyfarfodydd ............ **Error! Bookmark not defined.**
Hyrwyddo Digwyddiadau ............ **Error! Bookmark not defined.**
Arolygon ac Adborth ............ **Error! Bookmark not defined.**
Cael Gafael ar Wasanaethau Cynghorau ............ **Error! Bookmark not defined.**
Gwybodaeth Hanesyddol ac i Ymwelwyr ............ **Error! Bookmark not defined.**
Cynhyrchu Codau QR ............ **Error! Bookmark not defined.**
Cynhyrchwyr Codau QR Ar-lein ............ **Error! Bookmark not defined.**
Canllaw Cam-wrth-Gam: ............ 5
Meddalwedd Cynhyrchu Codau QR Ar-lein ............ **Error! Bookmark not defined.**
Canllaw Cam-wrth-Gam: ............ 5
Datrysiadau Integredig ............ **Error! Bookmark not defined.**
Canllaw Cam-wrth-Gam: ............ 6
Casgliad ............ **Error! Bookmark not defined.**
Atodiad A ............ **Error! Bookmark not defined.**
Trosolwg Technegol ............ **Error! Bookmark not defined.**
Hanes y Fersiwn ............ 7

# Cyflwyniad i Godau QR

Mae cod QR, neu god Ymateb Cyflym (Quick Response), yn fath o god bar (neu god bar dau ddimensiwn) y gellir ei ddarllen gan ffôn clyfar, neu beiriant arall â chamera. Gall codau QR storio gwybodaeth o bob math gan gynnwys URL (dolenni gwefannau), gwybodaeth gyswllt, a thestun, sy'n cynnig mynediad cyflym at gynnwys digidol.

Enghraifft o God QR yn cysylltu i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Mae'r enghraifft hon yn dangos sut y gellir defnyddio cod QR syml i gysylltu i wefan neu adnodd digidol. Trwy sganio'r cod QR gyda ffôn clyfar neu sganiwr QR, gall defnyddwyr gael gafael ar wybodaeth ar-lein yn gyflym heb orfod teipio'r manylion eu hunain.

# Sut mae Codau QR yn Gweithio

Mae codau QR yn gweithio trwy amgodio data yn batrwm o sgwariau du a gwyn. Pan mae peiriant yn sganio'r cod QR, mae'n dadgodio'r patrwm ac yn ei drosi'n wybodaeth ddarllenadwy. Yn gyffredinol, mae codau QR yn cyfeirio defnyddwyr at

wefannau neu adnoddau ar-lein, ond gallant hefyd gynnwys testun uniongyrchol, manylion cyswllt, neu hyd yn oed fanylion mewngofnodi rhwydweithiau Wi-Fi.

# Defnyddio Codau QR ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref

Mae codau QR yn cynnig dull deinamig a hwylus i Gynghorau cymuned a thref yng Nghymru i wella eu cyfathrebu a'u hymgysylltu gyda phobl leol. Rhestrir isod sawl ffordd y gall Cynghorau fanteisio ar y dechnoleg hon:

## Agendau a Chofnodion Cyfarfodydd

Gall Cynghorau ddefnyddio codau QR i gysylltu i gopïau digidol o agendau a chofnodion cyfarfodydd. Mae hyn yn cynnig mynediad rhwydd at ddogfennau pwysig ac mae'n hyrwyddo tryloywder. Sylwer nad yw hyn yn newid y gofynion rheoleiddiol ynghylch cyhoeddi nodiadau a chofnodion cyfarfodydd.

## Hyrwyddo Digwyddiadau

Gellir argraffu codau QR ar bosteri, taflenni, a chylchlythyron er mwyn gallu gweld manylion digwyddiadau, ffurflenni cofrestru, neu ddolenni digwyddiadau rhithiol yn syth. Mae hyn yn sicrhau ei bod yn hawdd i bobl gael gwybodaeth a chymryd rhan.

## Arolygon ac Adborth

Mae rhoi codau QR ar gyfathrebiadau'r cyngor neu mewn mannau cyhoeddus yn golygu y gall pobl agor a llenwi arolygon neu gynnig adborth yn gyflym. Gall hyn olygu fod mwy o bobl yn cymryd rhan a meithrin ysbryd cymunedol cadarnach.

## Cael Gafael ar Wasanaethau Cynghorau

Gall codau QR gyfeirio pobl at borthau ar-lein lle y gallant gael gafael ar wasanaethau amrywiol y cyngor megis talu biliau, rhoi gwybod am broblemau, neu wneud apwyntiadau. Mae hyn yn symleiddio prosesau ac yn gwella gwasanaethau.

## Gwybodaeth Hanesyddol ac i Ymwelwyr

Gall codau QR a roddir ar blaciau neu arwyddion ddarparu gwybodaeth hanesyddol am dirnodau neu atyniadau ymwelwyr. Gall hyn gyfoethogi profiad ymwelwyr trwy gynnig gwybodaeth gefndir fanwl a chynnwys amlgyfryngol.

# Cynhyrchu Codau QR

Gall Cynghorau gynhyrchu codau QR mewn sawl ffordd, yn amrywio o offerynnau ar-lein rhad ac am ddim i feddalwedd mwy soffistigedig. Dyma'r dulliau mwyaf cyffredin:

## Cynhyrchwyr Codau QR Ar-lein

Mae llawer o wefannau'n cynnig gwasanaethau cynhyrchu codau QR. Mae'r offerynnau hyn yn rhwydd i'w defnyddio ac maent yn aml yn ddigonol ar gyfer anghenion sylfaenol. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys

QRCode Monkey (https://www.qrcode-monkey.com/)

QRStuff (https://www.qrstuff.com/)

GoQR.me (https://goqr.me/)

Cost: Rhad am ddim i gost isel, gan ddibynnu ar yr addasu a'r terfynau defnyddio.

### Canllaw Cam-wrth-Gam:

- Ewch i wefan cynhyrchu codau QR a restrir uchod.
- Dewiswch y math o gynnwys yr ydych eisiau ei amgodio (e.e. gwefan, testun, cyfeiriad ebost).
- Rhowch y wybodaeth berthnasol i mewn (e.e. URL ar gyfer gwefan).
- Addaswch olwg y cod QR, os mynnwch (e.e. lliw, dyluniad).
- Cynhyrchwch y cod QR trwy wasgu ar y botwm priodol.
- Lawr lwythwch ddelwedd y cod QR ac arbedwch ef ar eich peiriant.
- Argraffwch neu uwch lwythwch y cod QR i'ch dewis gyfrwng.

## Meddalwedd Cynhyrchu Codau QR Ar-lein

Ar gyfer gofynion mwy datblygiedig, megis tracio ystadegau sganio neu integreiddio codau QR mewn prosiectau mwy, efallai y bydd meddalwedd pwrpasol yn fwy addas. Gall pecynnau fel QR Code Studio (https://qrcode.studio/) neu fersiynau am dâl o gynhyrchwyr ar-lein am ddim gynnig y nodweddion hyn.

Cost: Mae'n amrywio o daliad untro i fodel tanysgrifio, sydd fel arfer yn amrywio o £10 i £100+.

### Canllaw Cam-wrth-Gam:

- Prynwch a gosodwch feddalwedd cynhyrchu codau QR ar-lein megis QR Code Studio.
- Agorwch y feddalwedd a dewiswch y math o gynnwys yr ydych am ei amgodio.
- Mewnbynnwch y wybodaeth angenrheidiol, gan sicrhau ei bod yn fanwl-gywir a chyflawn.
- Addaswch ddyluniad a gosodiadau'r cod QR yn ôl eich dymuniadau.
- Cynhyrchwch y cod QR ac arbedwch y ddelwedd ar eich peiriant.

- Dylech fonitro ystadegau defnyddio a sganio os yw'r feddalwedd yn cynnig y nodweddion hynny.
- Dosbarthwch y cod QR trwy sianeli print neu ddigidol.

### Datrysiadau Integredig

Mae rhai systemau rheoli cynnwys (CMS) a llwyfannau rheoli perthnasoedd â chwsmeriaid (CRM) yn cynnig nodweddion cynhyrchu codau QR yn barod, Gall hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol i Gynghorau sy'n defnyddio'r systemau hyn yn barod at ddibenion eraill.

Cost: Fel arfer mae'n cael ei gynnwys yn y tâl tanysgrifio ar gyfer y CMS neu'r CRM.

#### Canllaw Cam-wrth-Gam:

- Mewngofnodwch ar eich llwyfan CMS neu CRM (e.e. WordPress, HubSpot).
- Ewch i'r nodwedd cynhyrchu codau QR neu ategyn.
- Dewiswch y math o gynnwys yr ydych am ei amgodio, megis URL neu wybodaeth gyswllt.
- Rhowch y manylion perthnasol i mewn ac addaswch ei olwg yn ôl y galw.
- Cynhyrchwch y cod QR ac arbedwch y ffeil ar eich peiriant.
- Ymgorfforwch y cod QR yn eich gwefan neu eich deunyddiau cyfathrebu.

## Casgliad

Mae codau QR yn cynnig ffordd amlbwrpas a chost-effeithiol i Gynghorau cymuned a thref yng Nghymru wella eu cyfathrebu, gwella eu gwasanaethau, ac ymgysylltu'n fwy effeithiol â phobl leol. Trwy integreiddio codau QR yn eu gwefannau a chyfryngau cyfathrebu eraill, gall Cynghorau gynnig mynediad cyflym a rhwydd at wybodaeth a gwasanaethau, gan feithrin cymuned fwy cysylltiedig a gwybodus yn y pendraw.

## Hanes y Fersiwn

| | Dyddiad | Cyhoeddwr | Rheswm | Dyddiad Adolygu |
|---|---|---|---|---|
| V1 | 13/03/25 | Justin Horrell | Fersiwn Wreiddiol | 13/03/26 |

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government